COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 24 MAWRTH 2026 10:00

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

R Williams
H T Bennett
S J Bletsoe
O Clatworthy

Presennol – O Bell

H Griffiths
J Llewellyn-Hopkins
J E Pratt
RM James
A R Berrow
C Davies

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins

Datganiadau o Ddiddordeb

Datganodd y Cynghorydd J E Platt fuddiant rhagfarnllyd gan fod rhai o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad y cyfeirir ato yn yr adroddiad yn adnabyddus iddo. Gadawodd y cyfarfod ar gyfer eitem 3 ar yr agenda.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Evans | Rheolwr Tîm Trwyddedu |
| Andrea Lee | Uwch Gyfreithiwr |
| William Lane | Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Yvonne Witchell | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

## 1. Cyfundrefn Profi Tacsis Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Pwrpas yr adroddiad oedd i aelodau ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan y fasnach tacsis a cherbydau llogi preifat, ynghyd â sylwadau gan Ganolfan Tŷ Thomas ar y cynigion canlynol:<br><br>i) Cadw'r drefn brofi fewnol bresennol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion gael Tystysgrif MOT gan Gyfleuster Cynnal a Chadw ar y Cyd Tŷ Thomas ynghyd â gwiriad cydymffurfiaeth tacsi ychwanegol.<br><br>ii) Caniatáu i berchnogion gael Tystysgrif MOT gan unrhyw orsaf brofi MOT a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) yn y Fwrdeistref Sirol, a bod yr un orsaf brofi yn cynnal gwiriad cydymffurfiaeth tacsi ychwanegol.<br><br>Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad a gofynnwyd cwestiynau yn ceisio eglurhad ynghylch gweithrediadau'r drefn brofi.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Penderfynodd yr aelodau ar y gofynion ar gyfer darpariaeth brofi yn y dyfodol ar gyfer tacsis a cherbydau llogi preifat ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel a ganlyn:<br><br>• Caniatáu i berchnogion gael Tystysgrif MOT o unrhyw orsaf brofi MOT a gymeradwywyd gan DVSA yn y Fwrdeistref Sirol, a bod yr un orsaf brofi yn cynnal gwiriad cydymffurfiaeth tacsi ychwanegol.<br>• Cymeradwyodd y ffurflen prawf cydymffurfiaeth tacsis a nodir yn Atodiad D a rhoddodd bŵer dirprwyedig i swyddogion trwyddedu i wneud diwygiadau i'r prawf hwnnw.<br>• Wedi rhoi pwerau dirprwyedig i swyddogion i weithredu system newydd gyda dyddiad gweithredu o 1 Mai 2026 er mwyn caniatáu cyfnod trosglwyddo llyfn. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mawrth 2026 |

## 2. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 24 Mawrth 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:27.